**Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy**

**5 Hydref 2022**

Yn bresennol: Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd S Hancock, Dr M Havard a'r Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd M James cyn ystyried y ceisiadau (gweler Cofnod 9) pan gymerodd y Gadair, ac eithrio wrth ystyried cais rhif SDF/102022/4 a gadeiriwyd gan y Dirprwy Gadeirydd].

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 10.50am; 11.05am – 12.10pm)

**1. Ethol Cadeirydd**
**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd M James yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**
**Penderfynwyd** ethol Dr M Havard yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod. Yn absenoldeb y Cadeirydd, cymerodd y Gadair.

**3. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dr R Plummer.

**4. Datgan Buddiannau**
Datgelodd y Cynghorydd M James bod ganddo fuddiant rhagfarnus yn y cais rhif SDF/102022/4 gan Gymuned Tafarn yr Hydd Gwyn, a gadawodd y cyfarfod adeg trafod y cais hwn.

**5. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022 i’w cadarnhau a’u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022.

**6. Materion yn Codi**
<u>Ceisiadau i'w Hystyried (Cofnod 6(i)b)</u>)
Dywedodd y Rheolwr Ariannu Allanol bod Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol San Ishmael, yn unol â chais y Pwyllgor, wedi gosod arddangosfa ddigidol yn eu Tŷ Clwb. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno, pe baent yn gwneud hynny, y byddai'r gronfa yn talu 80% o'r gost ac felly roedd swm y cyllid a roddir i'r prosiect wedi codi i £10,080.

**Nodwyd.**

7. **Adroddiad Ariannol**
Roedd adroddiad y Swyddog Ariannu a Grantiau yn rhoi diweddariad ar y prosiectau y dyfarnwyd cyllid SDF iddynt yn flaenorol ac yr oedd ymrwymiad ariannol yn dal i fod ar eu cyfer. Roedd adroddiadau cyn-derfynol ynghlwm gan ddau o'r prosiectau hyn (EcoDewi a Cydnerthu Cymunedol Ffynonne), ac roedd ceisiadau pellach ganddynt am gyllid gerbron y Pwyllgor i'w hystyried y diwrnod hwnnw. Roedd adroddiadau diwedd prosiect oddi wrth Neuadd Bentref Marloes a Sain Ffraid, Tŷ Clwb Solfach a Chlwb Rygbi Dinbych-y-pysgod hefyd ynghlwm i'r adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd camau ymlaen wedi'u cymryd ar y prosiectau hynny oedd yn dal heb hawlio'r cyfan o'u cyllid, a dywedwyd wrthynt bod EcoDewi a Fynonne wedi cyflwyno hawliadau ers ysgrifennu'r adroddiad, a bod diweddariad wedi'i gynnwys ar y tri prosiect arall.

Dywedwyd bod £100,000 ar gael gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w ddosbarthu fel grantiau am y cyfnod 2022/23 a bod £100,000 ychwanegol ar gael o gronfa Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, oedd yn golygu bod cyfanswm y grantiau sydd ar gael am 2022/23 yn £200,000. Fodd bynnag, nodwyd ei bod yn debygol y byddai cyllid pellach ar gael o'r gronfa Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy fis Ionawr. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod digon o arian ar gael ar gyfer pob un o'r prosiectau oedd yn cael eu hystyried y diwrnod hwnnw.

**Nodwyd.**

8. **Eithrio'r cyhoedd**
Nodwyd y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn bersonol neu'n fasnachol sensitif wrth drafod y ceisiadau, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

**Penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

9. **Ceisiadau i'w Hystyried**
Atgoffwyd y Pwyllgor bod yr Awdurdod fis Mehefin 2020 wedi cytuno i newid ffocws y Gronfa i gefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned sy'n cyfrannu at leihau carbon ac yn helpu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Roedd pedwar categori i geisiadau:
   a. Gosod cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn adeilad cymunedol.

b. Menter i hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon mewn trafnidiaeth.
c. Gosod cyfleuster cymunedol sy'n lleihau gwastraff.
d. Unrhyw fenter arall i leihau carbon yn y gymuned.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu deuddeg cais a wnaed i'r gronfa ers y cyfarfod blaenorol:

| **Math o Brosiect** | **Cyfeirnod** | **Sefydliad** | **Y Cyllid a Geisir** |
|---|---|---|---|
| A | SDF/102022/1 | Cymdeithas Gymunedol Cilgeti Begeli | 13,529 |
| A | SDF/102022/2 | Ambiwlans Sant Ioan Cymru | 17,176 |
| A | SDF/102022/3 | Neuadd Bentref Llandyfái | 7,296 |
| A | SDF/102022/4 | Tafarn Gymunedol yr Hydd Gwyn | 9,525 |
| A | SDF/102022/5 | Clwb Rygbi Hwlffordd | 9,623 |
| B | SDF/102022/6 | Canolfan Clydau | 11,663 |
| D | SDF/102022/7 | Grŵp 1af Sgowtiaid Johnston | 1,610 |
| D | SDF/102022/8 | Ymddiriedolaeth Gymunedol Neuadd Pater | 3,016 |
| D | SDF/102022/9 | Ffynonne - cydnerthu cymunedol yng Ngogledd Ddwyrain Sir Benfro | 25,000 |
| D | SDF/102022/10 | Awyr Dywyll APCAP<br>£20,002 blwyddyn 1,<br>£20,718 blwyddyn 2,<br>£20,914 blwyddyn 3. | £61,634 |
| D | SDF/102022/11 | Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod | 10,624 |
| D | SDF/102022/12 | EcoDewi | 19,760 |
| | | **Cyfanswm y cyllid a geisir** | **190,456** |

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio ac yn dilyn trafodaethau, **penderfynwyd**:

(i) bod swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano yn cael ei ganiatáu i'r ceisiadau canlynol, cyn belled ag y cedwir at amodau arferol y grant:

a) SDF/102022/1 - Gosod Paneli Solar ar y Ganolfan Gymunedol - Cymdeithas Gymunedol Cilgeti Begeli.
b) SDF/102022/2 - Solar Cynaliadwy - Ambiwlans Sant Ioan Cymru.
c) SDF/102022/3 - Dŵr twym cynaliadwy ecogyfeillgar - Neuadd Bentref Llandyfái.
d) SDF/102022/4 – Inswleiddio'r to a phaneli solar - Tafarn Gymunedol yr Hydd Gwyn.

e) SDF/102022/5 - Gwella cynaliadwyedd ar gyfer Clwb Rygbi Hwlffordd - Clwb Rygbi Hwlffordd.
f) SDF/102022/6 - Lloches Solar Beiciau Clydau - Canolfan Clydau.
g) SDF/102022/7 - Cynllun Datblygu Neuadd Hill Mountain – goleuadau allanol - Grŵp 1af Sgowtiaid Johnston.
h) SDF/102022/8 - Lleihau carbon mewn adeilad cymunedol - Ymddiriedolaeth Gymunedol Neuadd Pater.
j) SDF/102022/9 - Pys a Chariad - Ffynonne - cydnerthu cymunedol yng Ngogledd Ddwyrain Sir Benfro - gydag amod ychwanegol nad yw unrhyw arian i'w ryddhau hyd nes y bydd y prosiect sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y sefydliad (SDF/012022/4) wedi'i gwblhau.
k) SDF/102022/10 - Awyr Dywyll Sir Benfro (rhan o'r fenter Prosiect Nos) – APC Arfordir Penfro (cyllid 3 blynedd).
l) SDF/102022/11 - Lleihau ein hôl troed carbon: prosiect gwres a goleuadau - Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod.
m) SDF/102022/12 – Datgarboneiddio a arweinir gan y gymuned - EcoDewi – gydag amod ychwanegol nad yw unrhyw arian i'w ryddhau hyd nes y bydd y prosiect sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y sefydliad (SDF/042021/5) wedi'i gwblhau, gyda nodyn er gwybodaeth na fyddai cyllid pellach ar gyfer parhau â'r prosiect hwn yn cael ei ganiatáu, ac awgrymu y dylid cynhyrchu cynllun busnes/creu incwm.

(ii) Lle nad oedd ymgeiswyr wedi gallu rhoi dau ddyfynbris am y gwaith i'w gyflawni, dylai swyddogion wneud gwiriadau ychwanegol i fodloni eu hunain bod y prosiectau yn cynrychioli gwerth am arian.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023 heb eu diwygio. |